

**GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
HEALTH AND SAFETY SERVICES**

**EFFAITH DATGANIADAU FFITRWYDD I WEITHIO AR HYD ABSENOLDEB
TRWYSALWCH YM MHRIFYSGOL BANGOR
RHWNG 6 EBRILL 2010 A 5 EBRILL 2011**

Erthygl gan

Joe Patton

Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol



20 Ebrill 2011

CRYNODEB

Blwyddyn sydd ers cyflwyno datganiadau meddygol 'Ffitrwydd i Weithio'. Yn yr arolwg hwn, rwyf wedi ystyried yr effaith y mae'r rhain wedi'i chael ar hyd absenoldeb trwy salwch ymysg staff Prifysgol Bangor. Yn ôl y canfyddiadau, ers cyflwyno datganiadau 'Ffitrwydd i Weithio', mae salwch tymor hir wedi dod i ben cyn 6^{ed} mis yr absenoldeb. Ceir hefyd leihad o bwys ystadegol o ran hyd salwch seicolegol.

RHAGARWEINIAD

Ar 6 Ebrill 2010, disodlwyd y 'Papur Salwch' gan ddatganiad meddygol ar 'Ffitrwydd i Weithio', gydag argymhelliad penodol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) y dylai swyddogion iechyd galwedigaethol werthuso'r effaith ar fusnes¹.

Mewn adroddiad ar effaith y 6 mis cyntaf ym Mhrifysgol Bangor, cafwyd bob pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn rhwyddach, ac nad oeddent yn mynd yn absennol eto oherwydd salwch. Roedd y canfyddiadau cynnar hyn yn dangos hefyd fod pobl a gafodd gyngor meddygol i'w cefnogi i dychwelyd i'r gwaith yn dychwelyd yn gynharach na'r rhai na chawsant gyngor o'r fath².

Oherwydd bod yr arolwg cyntaf yn gyfyngedig, cydnabuwyd nad oedd y 6 mis cyntaf yn gyfnod digon hir i rywun ddod i gasgliadau cadarn ynglŷn ag effaith datganiadau 'Ffitrwydd i Weithio' ar hyd absenoldeb trwy salwch. Yn awr fod blwyddyn gron wedi mynd heibio, mae'n bryd ystyried a yw pobl yn dychwelyd i'r gwaith yn gynt.

DULL

Mae'n ofynnol gan Brifysgol Bangor fod rheolwyr yn anfon tystysgrifau meddygol i'r Adran Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch, lle nodir gwybodaeth ar system feddalwedd. Mae hyn yn rhoi cyfle i'r Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol (YIG) edrych ar y data hyn a chynnal archwiliadau ar hyd, lleoliad a rhesymau absenoldeb trwy salwch³.

At ddiben yr arolwg hwn, mae'r YIG wedi cymharu niferoedd y staff:

- a oedd wedi cael cyngor i beidio â gweithio dan yr hen drefn rhwng 6 Ebrill 2009 a 5 Ebrill 2010.
- a oedd wedi cael cyngor i beidio â gweithio dan y drefn newydd rhwng 6 Ebrill 2010 a 5 Ebrill 2011.

Mae'r data hyn wedi cael eu hastudio fel y gellir ystyried a fu lleihad, cynnydd neu ddim newid yn hyd absenoldebau am fathau penodol o salwch ers cyflwyno'r datganiad meddygol newydd.

Nid yw'r dadansoddiad hwn yn cynnwys cyfrifiad o gost absenoldeb trwy salwch, yn ariannol neu fel arall, na ph'un a oedd y rhai yr effeithiwyd arnynt yn gweithio mewn meysydd penodol. Nid yw'r arolwg hwn yn cynnwys ychwaith oed, rhyw na hyd gwasanaeth y staff dan sylw.

¹ www.dwp.gov.uk/docs/fitnote-occupational-health-guide.pdf. tud 7; cyrchwyd ar 6 Awst 2010


² PATTON, J. RICHES, E. (2010) 'Effaith datganiadau ffitrwydd i weithio ar absenoldeb tymor hir trwy salwch ym Mhrifysgol Bangor rhwng 6 Ebrill a 6 Hydref 2010' Iechyd Galwedigaethol, Argraffiad Rhagfyr 2010 tt 26-27

³ www.aggesso-business-world.com

CANLYNIADAU

Mae nifer y staff a gyflogir ym Mhrifysgol Bangor wedi cadw'n weddol gyson o ran y 2,000 o bobl sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg hwn ac yn arolwg y flwyddyn gynt. Dan yr hen drefn, 359 oedd nifer y staff a gyflwynodd ddatganiad meddygol a oedd yn eu cynghori i beidio â gweithio. Dan y drefn newydd, 352 o bobl a gafodd gyngor meddygol i beidio â gweithio.

Yn ôl y data a gasglwyd, ymddengys fod cyngor meddygol a roddwyd ers 6 Ebrill 2010 wedi arwain at leihad yn nifer yr achosion o salwch tymor hir (mwy na 6 mis) (Siart 1).



Y broblem wrth ddangos data ar siart gryno yw bod yr effaith yn cydbwysio unrhyw newidiadau a fo mewn amseriadau dychwelyd i'r gwaith yng nghyswllt gwahanol fathau o salwch. O'r herwydd, lluniwyd tabl casglu data, fel y gellir deall hyd absenoldeb trwy salwch o ran pob math o salwch yn ystod blwyddyn y papurau ffitrwydd, ac yna yn ystod blwyddyn y papurau salwch.

Gosodwyd yr effaith a gafodd datganiadau meddygol ffitrwydd i weithio ar wahanol fathau o salwch (tabl 2) yn ôl y mathau o salwch:

- (a) Lle bu lleihad yn yr amser a gymerwyd i ddychwelyd i weithio ar yr un pryd ag y cyflwynwyd papurau ffitrwydd;
- (b) Lle na chafwyd newid o ran hyd absenoldeb trwy salwch ar yr un pryd ag y cyflwynwyd papurau ffitrwydd, neu
- (c) Lle bu defnyddio papurau ffitrwydd yn cyd-daro ag afiechydon sy'n gofyn am fwy o absenoldeb o'r gwaith.

TABL 1
TABL CASGLU DATA

Papurau Ffitrwydd 6 Ebrill 2010 – 5 Ebrill 2011	< 20 niwrnod	< 1 mis	1-2 fis	2-3 mis	3-4 mis	4-5 mis	5-6 mis	>6 mis	Cyfan- swm
Problemau ar y cefn	24	3	3	0	0	0	1	0	31
Tyfiant anfalaen neu falaen	2	1	0	2	2	0	1	0	8
Anhwyldeira ar y gwaed	1	0	0	0	0	0	0	0	1
Annwyd a ffliw	7	0	0	0	0	0	0	0	7
Clefyd Siwgr	4	1	2	1	0	0	0	0	8
Cyflyrau ar y clustiau, y trwyn, y gwddf neu'r llygaid	16	2	1	0	1	0	0	0	20
Epilepsi	3	1	0	0	0	0	1	0	5
Problemau gastroberfeddol	19	1	1	0	2	1	0	0	24
Cyflyrau cenhedlol-droethol	11	0	3	1	1	0	0	0	16
Cur pen a meigrin	2	1	2	0	1	0	0	0	6
Clefyd y galon a'r system gylchredol	11	3	2	1	0	1	0	0	18
Cyflyrau cyhyrsgerberbydol eraill	40	6	10	6	4	2	1	0	69
Cysylltiedig â beichiogrwydd	11	0	4	4	0	0	0	0	19
Cyflyrau seicolegol	31	6	5	2	1	1	0	0	46
Haint resbiradol	40	1	0	0	0	0	0	0	41
Cyflyrau ar y croen	3	0	0	0	0	0	0	0	3
Haint firaol	5	1	1	0	0	0	0	0	7
Rhesymau penodol eraill	17	3	3	0	0	0	0	0	23
Cyfanswm blynyddol	247	30	37	17	12	5	4	0	352
Papurau salwch 6 Ebrill 2009 – 5 Ebrill 2010	< 20 niwrnod	< 1 mis	1-2 fis	2-3 mis	3-4 mis	4-5 mis	5-6 mis	>6 mis	Cyfan- swm
Problemau ar y cefn	19	2	2	3	4	0	0	1	31
Tyfiant anfalaen neu falaen	0	0	0	2	0	0	3	0	5
Anhwyldeira ar y gwaed	3	0	0	1	0	0	0	0	4
Annwyd a ffliw	18	0	0	0	0	0	0	0	18
Clefyd Siwgr	2	2	0	0	0	0	0	0	4
Cyflyrau ar y clustiau, y trwyn, y gwddf neu'r llygaid	15	0	0	0	0	0	0	0	15
Epilepsi	1	1	1	0	0	0	0	0	3
Problemau gastroberfeddol	25	1	1	0	0	0	0	0	27
Cyflyrau cenhedlol-droethol	21	2	2	2	2	0	0	3	32
Cur pen a meigrin	0	0	0	0	0	0	1	0	1
Clefyd y galon a'r system gylchredol	4	2	1	2	1	0	0	0	10
Cyflyrau cyhyrsgerberbydol eraill	18	6	5	3	2	3	1	2	40
Cysylltiedig â beichiogrwydd	11	0	0	0	0	0	0	0	11
Cyflyrau seicolegol	23	6	17	6	2	1	1	1	57
Haint resbiradol	43	2	2	0	2	0	0	0	49
Cyflyrau ar y croen	4	2	0	0	0	0	0	0	6
Haint firaol	4	0	0	1	0	0	0	0	5
Rhesymau penodol eraill	26	7	3	3	0	0	2	0	41
Cyfanswm blynyddol	237	33	34	23	13	4	8	7	359

TABL 2

EFFAITH DATGANIADAU MEDDYGOL FFITRWYDD I WEITHIO AR HYD ABSENOLDEB TRWY SALWCH YNG NGHYSWLLT MATHAU PENODOL O SALWCH

MATHAU O SALWCH A OEDD YN GOFYN AM LAI O ABSENOLDEB TRWY SALWCH O'R GWAITH	MATHAU O SALWCH A OEDD YN GOFYN AM YR UN ABSENOLDEB TRWY SALWCH O'R GWAITH	MATHAU O SALWCH A OEDD YN GOFYN AM FWY O ABSENOLDEB O'R GWAITH
Problemau ar y cefn	Tyfiant anfalaen neu falaen	Clefydau gastroberfeddol
Anhwylderau ar y gwaed	Clefyd Siwgr	Cur pen a meigrin
Annwyd a ffliw	Cyflyrau ar y clustiau, y trwyn, y gwddf neu'r llygaid	Cyflyrau cyhyrsgerberbydol eraill
Cyflyrau cenhedlol-droethol	Epilepsi	
Seicolegol	Clefyd y galon a'r system gylchredol	
Heintiau resbiradol	Cysylltiedig â beichiogrwydd	
Cyflyrau ar y croen	Haint firaol	
Rhesymau amhenodol eraill		

Oherwydd bod nifer yr unigolion a ddiodeffodd gan fathau penodol o glefydau yn isel, ceir anhawster wrth gyfrif unrhyw wahaniaeth ystadegol o bwys rhwng hyd absenoldebau dan drefn y papur ffitrwydd ac absenoldebau dan drefn y papur salwch. Yr eithriad yw lle cafwyd gwahaniaethau ym mhatrymau dychwelyd i waith yn achos staff a oedd ag anhwylder seicolegol (Tabl 3).

TABL 3

EFFAITH DATGANIADAU MEDDYGOL FFITRWYDD I WEITHIO AR HYD ABSENOLDEB TRWY SALWCH YNG NGHYSWLLT ANHWYLDERAU SEICOLEGOL

Nifer yr absenoldebau trwy salwch oherwydd anhwylderau seicolegol	Y ganran a ddychwelodd i'r gwaith mewn <20 niwrnod	Y ganran a ddychwelodd i'r gwaith mewn 20-54 diwrnod	Y ganran a ddychwelodd i'r gwaith mewn >20 niwrnod
2009-2010 = 57	40.4%	40.4%	19.2%
2010-2011 = 46	67.4%	23.9%	8.7%

Dyma'r canfyddiadau yng nghyswllt absenoldebau am resymau seicolegol:

1. Ar yr un pryd ag y cyflwynwyd datganiadau ffitrwydd i weithio, dychwelodd mwy na 67% o'r staff a fu'n dioddef gan broblemau seicolegol i'r gwaith o fewn llai nag 20 niwrnod, wrth ochr ychydig yn fwy na 40% y flwyddyn gynt.
2. Roedd y ganran a ddychwelodd wedyn ar ôl 20 niwrnod wedi'i dosbarthu'n gyfatebol.
3. Cafwyd gwahaniaeth arwyddocaol ym mhatrymau dychwelyd i'r gwaith rhwng y staff hynny a ddefnyddiodd y drefn papurau ffitrwydd a'r rhai na wnaethant (prawf chi-sgwâr =7.60, amledd dosbarthiad =2, p=0.022)

Roedd y mathau eraill o salwch y bu llai o absenoldeb o'u herwydd yn cynnwys ffliw. Yma, dylanwad ffliw pandemig yw'r rheswm am y niferoedd uchel a fu'n absennol o'i herwydd yn 2009-2010 wrth ochr 2010-2011.

Nid oes arwyddocâd ystadegol yng ngweddill y data ar fathau o salwch a fu'n arwain at lai neu fwy o absenoldeb o'r gwaith, a dychwelodd y rhan fwyaf o bobl i'r gwaith cyn 20 niwrnod o salwch.

CASGLIAD

Yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, ni fu unrhyw wahaniaeth yn nifer y staff a gyflogir ym Mhrifysgol Bangor, nac ychwaith unrhyw wahaniaeth o bwys o ran nifer y staff a gafodd gyngor gan eu meddyg i beidio â mynd i'r gwaith oherwydd salwch. Mae'r cysonder hwn yn gymorth imi ddod i gasgliadau ynglŷn â'r effaith y mae'r datganiad meddygol o ffitrwydd i weithio wedi'i chael ar hyd absenoldeb trwy salwch.

Mae'n werth nodi bod effaith cyngor meddygol a roddwyd ers 6 Ebrill 2010 wedi digwydd ar yr un pryd â lleihad yn nifer yr achosion o salwch tymor hir o fwy na i 6 mis. Gwyddys fod atal absenoldeb o'r gwaith trwy salwch rhag parhau i'r 6^{ed} mis a'r tu hwnt yn lleihau, o 80%, y posibilrwydd y bydd gweithwyr wedyn yn absennol o'r gwaith am 5 mlynedd.⁴

Mae'r drefn newydd wedi galluogi pobl ag anhwylderau seicolegol i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt. Oherwydd y nifer isel o fathau eraill o salwch, ni ellir dod i gasgliadau cadarn ynglŷn ag arwyddocâd ystadegol data a gasglwyd.

⁴ Waddell a Burton 2006, dyfynnwyd yn NICE public health guidance 19 (Mawrth 2009) www.nice.org.uk/nicemedia/PH19quickreferenceguide
t 7